**Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn (164)**
**Dydd Mercher, 02 Tachwedd 2005**

# AGENDA

## Bydd y cyfarfod yn dechrau am 2.00pm

............................

**Eitem 1 -** Cwestiynau i Brian Gibbons, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Eitem 2 -** Cwestiynau i Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

**Eitem 3** – Cwestiynau i Bwyllgor y Ty - *Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau*

**Eitem 4** – Dadl ar Dai Fforddiadwy

**Eitem 5 –** Y Ddadl Fer - NDM2653 Alun Cairns (Gorllewin De Cymru): A fydd carthu'n dinistrio'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol gyntaf yn y DU?

............................

**Eitem 1 - Cwestiynau i Brian Gibbons, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

............................

**Eitem 2 - Cwestiynau i Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon**

............................

## Eitem 3 - Cwestiynau i Bwyllgor y Ty

*Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau*

............................

## Eitem 4 - Dadl ar Dai Fforddiadwy

**NDM2652 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod y trafferthion sy'n wynebu aelwydydd iau sy'n gweithio, i gael mynediad i'r farchnad dai mewn rhannau o Gymru.

2. Yn derbyn mai mater i awdurdodau lleol yw nodi eu gofynion a'u blaenoriaethau eu hunain o ran tai, yng ngoleuni amgylchiadau lleol.

3. Yn nodi'r camau ymarferol a gymerwyd gan Lywodraeth y Cynulliad i roi sylw i'r materion hyn.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau canlynol at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cynnal yn unigol:*

**(1, 2, 3, 4, 5, 6, 7 + 8)**
**(9, 10 + 11)**
**(12, 13 + 14)**

**1. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu pwynt 1 a chynnwys fel pwynt 1 newydd:

"Yn mynegi pryder ynghylch y trafferthion a wynebir gan nifer cynyddol o bobl i gael mynediad i'r farchnad dai ledled Cymru."

**2. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ym mhwynt 2, cynnwys ar ôl "amgylchiadau lleol":

ac yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i alluogi awdurdodau lleol i ddarparu tai fforddiadwy yng nghefn gwlad, yn ogystal â thai fforddiadwy mewn trefi a phentrefi.

**3. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu pwynt 3 a chynnwys fel pwynt 3 newydd:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu Strategaeth Tai Fforddiadwy i Gymru, tra'n cydnabod fod diffyg pwerau'n rhwystro gallu Cynulliad Cenedlaethol Cymru i roi sylw llawn i'r argyfwng tai yng Nghymru.

**4. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod fod parhad Llafur Newydd o bolisïau'r Ceidwadwyr ar hawl i brynu wedi golygu disbyddu peth o stoc tai cymdeithasol gorau Cymru ac mai dyma un o'r prif ffactorau yn yr argyfwng tai presennol a'r lefelau cynyddol o ddigartrefedd.

**5. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at gefnogaeth Llafur Newydd i'r cronfeydd pensiwn newydd Pensiynau Personol Hunan-Fuddsoddi (SIPPS) fydd yn galluogi'r cyfoethog i fod yn berchen ac elwa ar ail-gartrefi yng Nghymru tra bo llawer o bobl yng Nghymru'n byw mewn tai anffit neu'n gwario swm cynyddol o'u hincwm ar dai.

**6. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i wneud sylwadau i lywodraeth y DU ar i eiddo yng Nghymru gael eu heithrio o SIPPS.

**7. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cyfarwyddo Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyflwyno dosbarth cynllunio newydd ar gyfer ail

gartrefi, i ganiatáu i awdurdodau lleol reoli lefelau ail gartrefi lle byddai niferoedd uchel yn arwain at broblemau cymdeithasol.

**8. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu fod polisi tai newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gorfodi llawer o awdurdodau lleol i wneud penderfyniadau i drosglwyddo'u stoc dai.

**9. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i annog a hyrwyddo creu Ymddiriedolaethau Tai Cymunedol.

**10. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am gyfyngiadau ar yr hawl i brynu mewn ardaloedd lle mae galw mawr.

**11. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi ac annog awdurdodau cynllunio lleol i greu mwy o hyblygrwydd ar gyfer datblygu gwahanol bolisïau cynllunio ar dai fforddiadwy.

**12. David Melding (Canol De Cymru):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu fod yr argyfwng tai presennol wedi'i waethygu gan bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru i leihau'r lefel o adnoddau sydd ar gael ar gyfer tai fforddiadwy.

**13. David Melding (Canol De Cymru):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi fod Polisïau Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u peryglu gan yr argyfwng tai.

**14. David Melding (Canol De Cymru):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at fethiant Llywodraeth Cynulliad Cymru i gydnabod effaith niweidiol yr argyfwng tai ar sawl cymuned Cymraeg ei hiaith.

**...........................**

**Eitem 5 - Y Ddadl Fer - NDM2653 Alun Cairns (Gorllewin De Cymru): A fydd carthu'n dinistrio'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol gyntaf yn y DU?**

**...........................**

**Rhagwelir y bydd y cyfarfod yn dod i ben erbyn 5.30pm**

**.......................................**

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 2.00pm ddydd Mawrth, 8 Tachwedd 2005**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**